# DOGFEN WYBODAETH Cymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol

# Cyflwyniad

## Cynnwys


Cynulleidfa ........ 3

Talu'n brydlon ac is-gontractio........ 4

Cyflogaeth ........ 7

Cydymffurfio ........ 12

Hyfforddiant........ 18

Is-gontractio ........ 22

Yr amgylchedd ........ 25

Templedi – Cynlluniau a Thablau Adrodd ........ 31

Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau a Datganiad Dull Templed: ........ 31

Tabl Adrodd Cyflogaeth a Sgiliau Templed: ........ 33

Tabl Adrodd Cydymffurfiaeth Cyflogaeth Templed: ........ 33

Tabl Adrodd Is-gontractio templed: ........ 34

Cynllun Amgylchedd Templed: ........ 34

Tabl Adrodd Amgylchedd Templed: ........ 37

## Cynulleidfa

1. Lluniwyd y ddogfen wybodaeth hon yn bennaf ar gyfer yr awdurdodau contractio a restrir yn Atodlen 1 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Deddf SPPP). Fodd bynnag, gan fod Deddf SPPP yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar Awdurdodau Contractio ynghylch y cymalau Gwaith Cyhoeddus Cymdeithasol a geir ym mhob contract adeiladu mawr, efallai y dylai cyflenwyr hefyd ddarllen y canllawiau hyn.

2. Er mwyn i Awdurdodau Contractio gynnwys y cymalau Gwaith mewn 'contractau yn ôl y gofyn', gwerth dros £2m, bydd angen i'r sefydliadau hynny sy'n dyfarnu ac yn rheoli Cytundeb Fframwaith, DPS, neu DM i'w ddefnyddio gan Awdurdodau Contractio, gynnwys y Cymalau yn y cytundebau hyn. .

3. Byddai gofyn i unrhyw Awdurdod Contractio sy'n dyfarnu contract yn ôl y gofyn o dan y trefniant hwn sy'n werth dros £2m, ddefnyddio Telerau ac Amodau contract yn ôl y gofyn sy'n cynnwys yr holl gymalau modl, neu anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru.

4. Ar gyfer fframweithiau, DPS neu DMs sydd wedi'u cynllunio i ganiatáu contractau yn ôl y gofyn sy'n werth llai na £2m, efallai y bydd angen templedi contractau nad ydynt yn cynnwys y Cymalau. Ni fyddai angen unrhyw hysbysiad ar gyfer peidio â chynnwys Cymalau contract fydd yn werth llai na £2m.

# Talu'n brydlon ac is-gontractio

5. Dibenion y cymalau hyn yw:

    i. Sicrhau bod telerau talu 30 diwrnod yn cael eu bodloni trwy gydol y gadwyn gyflenwi.
    ii. Cyflymu a diogelu arian y gadwyn gyflenwi trwy ddefnyddio cyfrifon banc prosiectau
    iii. Delio ag arian dargadw yn deg trwy sicrhau bod unrhyw arian yn y gadwyn gyflenwi a gedwir yn ôl yn cael ei ryddhau i gontractwyr ac isgontractwyr yn brydlon.

6. Fel arfer, ymdrinnir â chymalau talu trwy ffurflenni contract safonol. Yr NEC a’r JCT sy'n cynhyrchu'r rhai a ddefnyddir amlaf. Mae'r Cymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol yn cynnwys fersiynau annibynnol o'r cymalau, a diwygiadau i rai'r NEC a'r JCT er mwyn iddynt allu cael eu defnyddio i fodloni gofynion y Ddeddf.

7. Yn unol â gofynion y Ddeddf, rhaid trosglwyddo telerau talu 30 diwrnod, neu rai sydd o leiaf yr un mor ffafriol, i lawr drwy'r gadwyn gyflenwi.

8. Yn unol â'r gofynion ar fecanweithiau talu, os gwneir penderfyniad i gynnwys y cymalau, rhaid defnyddio cyfrif banc y prosiect (PBA). Mae hwn yn gyfrif lle mae'r arian yn cael ei gadw mewn ymddiriedolaeth gan gleientiaid a / neu gontractwyr gydag is-gontractwyr yn ymuno fel buddiolwyr. Dyma fydd y drefn ar gyfer pob prosiect dros £2m. Gwelir manylion sut mae PBA yn cael ei redeg yn y weithred ymddiriedolaeth enghreifftiol a'r weithred ymuno.

9. I weld canllawiau Llywodraeth Cymru ar PBAs, cliciwch ar y ddolen sy'n dilyn: Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) 011: Canllawiau ar gyfer defnyddio polisi Llywodraeth Cymru ar gyfrifon banc prosiectau Mae'r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth am:
    i. Canllawiau:
        - Nodweddion a manteision PBAs
        - Sut mae PBAs yn gweithio a'r partïon cysylltiedig
        - Darparwyr gwasanaethau (banciau) sydd wedi'u henwi a'u manylion cyswllt
        - Y broses dalu, gweinyddu'r cyfrif a chyfrifon sengl/ar y cyd
    ii. Gweithredu:
        - Enghreifftiau o pam y gall cyflenwyr optio allan
        - Monitro perfformiad
        - Camau'r broses gaffael

10. Yn unol â'r gofynion yn y cymalau ar weinyddu arian dargadw, mae cleientiaid, contractwyr ac isgontractwyr i gyd yn gyfrifol am sicrhau, lle mae arian yn cael ei

ddargadw, ei fod yn cael ei ryddhau'n brydlon ac yn llwyr yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt.

11. Pan fydd angen llofnodion contract i sefydlu Gweithredoedd i greu'r PBA, gallai awdurdodau contractio ddefnyddio meddalwedd i greu llofnod electronig i gyflymu a symleiddio'r broses.

# Cyflogaeth

## Cymal 1.1

12. Yn unol â chymal 1.1, bydd arferion recriwtio a chyflogaeth cynhwysol yn helpu i chwalu’r hyn sy'n rhwystro gwahanol grwpiau o bobl rhag cael gwaith.

13. Gall awdurdodau contractio osod gofynion penodol ar gontractwyr o ran arferion recriwtio cynhwysol. Fel arall, gallant ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ac is-gontractwyr fabwysiadu canllawiau’r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) Inclusive recruitment: Guide for employers | CIPD. Mae canllawiau'r CIPD yn cynnwys gwybodaeth am:

    i. Dylunio rôl a hysbyseb swydd
    - Gwneud gofynion y rôl yn glir, yn benodol, ac yn seiliedig ar ymddygiad
    - Dileu iaith wahaniaethol mewn hysbysebion swyddi
    - Manyleb swydd – cynnig gweithio hyblyg, cynnwys gwybodaeth am gyflog a buddion,
    - Denu ymgeiswyr amrywiol

    ii. Targedu grwpiau ymylol
    - Gwneud y profiad recriwtio yn gynhwysol – creu disgwyliadau clir a gofyn i ymgeiswyr a oes angen addasiadau rhesymol arnynt

    iii. Y broses ymgeisio
    - Anonymeiddio ceisiadau
    - Osgoi gofyn am ddyddiadau hanes cyflogaeth

    iv. Y broses ddethol
    - Sifftio
    - Y Cyfweliad
    - Asesiadau sy'n seiliedig ar sgiliau
    - Gwerthuso ymgeiswyr

14. Mae'r canllawiau CIPD yn cynnwys hefyd dempledi ac astudiaethau achos, yn ogystal â dolenni i adnoddau eraill, gan gynnwys sut i bennu targedau amrywiaeth effeithiol.

15. Er mwyn cryfhau’r ymrwymiad i gyflogaeth gynhwysol, dylai awdurdodau contractio ystyried cofrestru ar gyfer y cynlluniau a’r siarterau isod, ac annog eu cadwyni cyflenwi i wneud hynny.  Mae yna hefyd gymalau dewisol (cymal 1.5) y gellir eu defnyddio i gryfhau gweithrediad y rhain.

16. Disability Confident employer scheme - GOV.UK - yn annog cyflogwyr i feddwl yn wahanol am anabledd a chymryd camau i wella sut maent yn recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl.

17. Diversity Champions | Stonewall – yn darparu cymorth i fusnesau ddod yn weithle cynhwysol i bobl LHDTC+.

18. Race - Business in the Community - Mae'r Siarter Hil yn y Gwaith yn set o saith ymrwymiad cyhoeddus gan fusnesau i hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle.

19. Mae cymorth ar gael i gyflogwyr ar ffurf cyngor, arweiniad a chyllid. Mae'r dolenni canlynol yn rhoi gwybodaeth am sut i gael y cymorth sydd ei angen.
Cymorth Recriwtio Porth Sgiliau Busnes Cymru

Cyflogwyr | Gyrfa Cymru

## Cymal 1.2

20. Yn unol â chymal 1.2, gall nodi a mynd i'r afael â bylchau sgiliau fod o fudd i'r gweithiwr a'r cyflogwr. Gall awdurdodau contractio dderbyn datganiad gan y contractwr yn seiliedig ar eu hasesiad eu hunain o'r prosiect a'r anghenion penodol.

21. Fel arall, gall contractwyr ac is-gontractwyr ddefnyddio adroddiadau'r diwydiant ar gyfer eu dadansoddiad o fylchau sgiliau. Er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau sgiliau, gall contractwyr ac is-gontractwyr gyflogi pobl sydd â'r sgiliau gofynnol neu ddarparu hyfforddiant i aelodau'r gweithlu presennol, sy'n gysylltiedig â'r cynllun hyfforddi yn Atodlen 5.

22. Gweler isod adroddiadau defnyddiol gan y diwydiant ar fylchau sgiliau. Mae yna hefyd nifer o adroddiadau ar gyfer meysydd a phroffesiynau penodol sy'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd.

- People and Skills – Construction Leadership Council (chwiliwch am "Industry Skills Plan")
- Build UK Reports - Build UK
- Resource library search | FMB, Federation of Master Builders (chwiliwch am "State of Trade Surveys")
- Gyrfa Cymru - Prentisiaethau
- Sgiliau sero net Nghymru | LLYW.CYMRU
- CSN Industry Outlook - 2024-2028 - CITB

## Cymal 1.3

23. Yn unol â chymal 1.3, dylai contractwyr a chadwyni cyflenwi gymryd camau gweithredu sy'n darparu cyflogaeth hirdymor i weithwyr, neu'n gwella'r tebygolrwydd o gyflogaeth hirdymor iddynt. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Cyflogi gweithwyr yn uniongyrchol, gyda buddion diogelwch a hyfforddiant.
- Sefydlu partneriaethau gydag asiantaethau cyflogaeth neu wasanaethau lleoliadau gwaith.
- Buddsoddi mewn hyfforddiant ac uwchsgilio (yn unol â'r cymalau Hyfforddiant).
- Datblygu cynlluniau pontio prosiect ar gyfer gweithwyr, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer ailaseinio.
- Cyfathrebu'n rheolaidd â'r gweithlu am brosiectau a rolau yn y dyfodol.

## Cymal 1.4

24. Yn unol â chymal 1.4(a), gall awdurdodau contractio dderbyn cynlluniau cyflogaeth y mae contractwyr eisoes yn eu defnyddio. Fel arall, ceir templed i'r cynllun yn Atodiad 2. Yn y man lleiaf, rhaid i'r cynlluniau nodi sut mae'r contractwr yn bwriadu:

i. Darparu cyfleoedd cyflogaeth i'r grwpiau hynny a nodir yng nghymal 1.1;
ii. Nodi a mynd i'r afael â bylchau sgiliau o fewn y gweithlu;
iii. Darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth barhaus i'r gweithlu sy'n ymwneud â chyflawni'r gwaith ar ôl ei gwblhau.

25. Dylai'r data a ddarperir yn erbyn cymal 1.4(c) gynnwys nifer y swyddi a grëwyd ac y gellir eu cynnwys yn adroddiadau cyflogaeth a sgiliau'r contractwr. Ceir hefyd tabl adrodd templed yn Atodiad 2.

26. Gellir cofnodi nifer y bobl ar draws gwahanol grwpiau o bobl a/neu nodweddion gwarchodedig, ac efallai y bydd gan rai awdurdodau contractio a chontractwyr systemau ar waith ar gyfer gwneud hyn Ond dylid ond casglu'r wybodaeth pan fo'n gymesur i wneud hynny a phan fo'n cael ei defnyddio i ddangos effeithiau'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol dros amser.

27. Adnoddau a chymorth eraill sydd ar gael:

Cynlluniau cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru:

[Cymorth Cyflogaeth | Is-bwnc | LLYW.CYMRU]

https://gyrfacymru.llyw.cymru/Gyrfa Cymru

Recriwtio prentis: canllawiau i gyflogwyr | LLYW.CYMRU

Cynllun Rhannu Prentis - Adeilad Cyfle

## Cymal 1.5 (dewisol)

28. Dylid ystyried cynnwys y cymal dewisol hwn mewn contractau mwy lle ystyrir ei fod yn gymesur gwneud hynny, neu lle mae risgiau o gaethwasiaeth fodern neu arferion cyflogaeth annheg yn cael eu nodi mewn contract penodol.

29. Mae'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn cynnwys set o 12 ymrwymiad – mae ar gael yma, ynghyd â chanllawiau cysylltiedig: Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi: Cod ymarfer, arweiniad a hyfforddiant | LLYW.CYMRU

## Cymal 1.6 (dewisol)

30. Dylid ystyried cynnwys y cymal dewisol hwn mewn contractau mwy lle ystyrir ei fod yn gymesur gwneud hynny. Mae Gwaith Teg yn cael ei ddiffinio fel presenoldeb amodau amlwg yn y gwaith sy’n golygu bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo’n deg, eu clywed a’u cynrychioli, eu bod mewn sefyllfa ddiogel ac yn gallu gwneud cynnydd mewn amgylchedd gwaith iach, cynhwysol lle mae hawliau’n cael eu parchu Mae’r canllaw, sy’n cynnwys enghreifftiau ymarferol, ar gael yma: Canllaw i waith teg | LLYW.CYMRU

## Cymal 1.7 (dewisol)

31. Dylid ystyried cynnwys y cymal dewisol hwn mewn contractau mwy lle mae gan gontractwyr y gallu i gadw at y cynlluniau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant canlynol, y mae Llywodraeth Cymru un o’u llofnodwyr:

- Cynllun Hyderus o ran Anabledd, Cynllun cyflogwr Hyderus o ran Anabledd - GOV.UK
- Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall Hyrwyddwyr Amrywiaeth | Stonewall
- Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned https://www.bitc.org.uk/race/Hil - Busnes yn y Gymuned.

# Cydymffurfio

## Cymal 1.1

32. Dylai awdurdodau contractio gefnogi contractwyr a'u cadwyni cyflenwi drwy ddarparu dolenni defnyddiol i ddeddfwriaeth berthnasol (gweler isod).

33. Cyngor ac arweiniad ACAS: Work and employment law advice | Acas. Mae'r ddolen hon yn darparu cyngor ar y pynciau canlynol, yn ogystal â llythyrau, ffurflenni a pholisïau templed rhad ac am ddim:

    - Tâl a chyflogau
    - Gwyliau, salwch ac absenoldeb
    - Contract cyflogi
    - Camwahaniaethu a bwlio
    - Diswyddiadau
    - Colli swydd
    - Delio â phroblemau yn y gwaith
    - Gweithdrefnau disgyblu a chwynion
    - Oriau gwaith
    - Gweithio Hyblyg
    - Ceisiadau am swyddi a chyflogi
    - Iechyd a llesiant, gan gynnwys anabledd yn y gwaith
    - Trosglwyddiadau TUPE
    - Streiciau a gweithredu diwydiannol

34. Cyflogaeth a hawliau cyflogaeth: Employment status and rights: checklist for employers and other engagers - GOV.UK Mae'r ddolen hon yn darparu rhestr wirio i gyflogwyr a phobl eraill sy'n cymryd gweithwyr ymlaen i'w helpu i ddeall pa rwymedigaethau cyflogaeth sy'n berthnasol iddynt. Yn gyntaf, drwy sefydlu statws cyflogaeth person (gweithiwr cyflogedig, gweithiwr, hunangyflogedig), gall y cyflogwr neu'r person arall sy'n cymryd pobl ymlaen nodi pa hawliau sy'n gymwys, a chynnwys meysydd megis:

    - Tâl
    - Gwyliau
    - Tâl Salwch Statudol
    - Amser o'r gwaith ar gyfer gweithgareddau a dyletswyddau amrywiol
    - Diswyddo annheg
    - Chwythu'r chwiban.
    - Gwahaniaethu
    - Aelodaeth undeb llafur

- Cynllun Pensiwn

35. Deddf Cydraddoldeb Canllawiau Deddf Cydraddoldeb 2010 Mae’r dudalen hon yn darparu gwybodaeth i gyrff cyhoeddus am sut i osgoi gwahaniaethu yn y gweithle ac mewn cymdeithas yn ehangach ac mae’n cynnwys canllawiau Cychwyn Cyflym ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswyddau penodol mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth ac amcanion.

36. Deddf Cydraddoldeb Guidance for businesses | EHRC. Mae’r dudalen hon yn darparu gwybodaeth i fusnesau am y Ddeddf Cydraddoldeb ac yn cynnwys enghreifftiau o wahaniaethu ac arfer da.

37. Deddf Iechyd a Diogelwch 1974 Health and safety basics for your business. Mae'r ddolen hon yn cynnwys canllawiau ar y pynciau canlynol:

- Paratoi polisi iechyd a diogelwch
- Rheoli risgiau ac asesu risgiau yn y gwaith
- Rhoi gwybod am ddamweiniau a salwch
- Gwybodaeth a hyfforddiant
- Ymgynghori â gweithwyr
- Cyfleusterau yn y gweithle
- Cymorth cyntaf yn y gwaith
- Arddangos poster am y gyfraith
- Penodi person cymwys

38. Deddf Caethwasiaeth Fodern (y DU) Modern Slavery: statutory guidance for England and Wales (under s49 of the Modern Slavery Act 2015) and non-statutory guidance for Scotland and Northern Ireland (accessible version) - GOV.UK. Mae'r ddolen hon yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Adnabod dioddefwyr posibl
- Rolau a chyfrifoldebau
- Atgyfeirio dioddefwyr posibl i’r mecanwaith atgyfeirio perthnasol
- Gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed
- Cymorth i ddioddefwyr sy’n oedolion
- Dioddefwyr sy’n blant

39. Pan fo’n gymesur, a phan fo risgiau uwch o gydymffurfiaeth wael â chyfraith cyflogaeth, cynghorir awdurdodau contractio i ddarparu hyfforddiant i gontractwyr

a’u cadwyni cyflenwi neu eu hannog i gynnal hyfforddiant drwy ddarparu adnoddau a/neu ddolenni i gyrsiau iddynt.

40. Cyrsiau hyfforddi ACAS: Training courses | Acas. Mae'r cyrsiau hyfforddi sydd ar gael yn cynnwys:

- Contractau
- Diweddariadau ar gyfraith cyflogaeth
- Gweithio Hyblyg
- Rheoli absenoldeb, disgyblaeth, cwyno
- Rheoli iechyd meddwl gweithwyr

41. Mae’r Supply Chain Sustainability School hefyd yn darparu cyfres o sesiynau hyfforddi am ddim ar gyfer cadwyni cyflenwi contractwyr sy’n aelodau: Strategic People Training - Supply Chain School

42. Cyngres yr Undebau Llafur: Workplace guidance | TUC. Mae'r dudalen canllawiau yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Cydraddoldeb a gwahaniaethu
- Dysgu, Sgiliau a Hyfforddiant
- Gwaith sy’n ystyriol o deuluoedd
- Trefnu a bargeinio
- Iechyd, diogelwch a llesiant
- Cyflog, gwyliau ac oriau gwaith
- Diswyddo, colli swyddi a chwynion
- Hawliau a chontractau sylfaenol

## Cymal 1.3

43. Mewn perthynas â chymalau (i) i (viii), dylai’r math o wybodaeth y dylai awdurdodau contractio ofyn amdani gynnwys, ymhlith eraill:

- Telerau ac amodau cyflogaeth, contract gwasanaeth neu gyswllt ar gyfer gwasanaethau
- Slipiau cyflog dienw
- Prosesau a/neu weithdrefnau
- Copïau o bolisïau, asesiadau risg a/neu ardystiad
- Cofnodion hyfforddi lle bo'n berthnasol

- Hapwiriadau/arolygon ar gyfer gweithwyr

44. Rhaid casglu'r wybodaeth a bennir gan awdurdodau contractio ar bob lefel o is-gontract yn unol â gofynion y Ddeddf. Gall awdurdodau contractio ofyn am yr wybodaeth ofynnol mewn unrhyw ffurf a ddewisant. Mae cofrestr templed ar gael yn Atodiad 2.

## Cymal 1.5

45. Mae tudalen we ganlynol Llywodraeth y DU yn darparu gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer rhoi gwybod am faterion a chwynion sy'n ymwneud â thâl a hawliau gwaith. Mae unrhyw gwynion a wneir yn cael eu cyfeirio at asiantaeth fwyaf perthnasol y llywodraeth: Pay and work rights helpline and complaints - GOV.UK

46. Er mwyn darparu gwybodaeth am gam-drin gweithwyr, yn ogystal â phryderon trwyddedu busnes, mae gan yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Gweithwyr ystod o opsiynau ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol: Contact Us - GLAA

47. Yng Nghymru, mabwysiadir dull Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) i atgyfeirio dioddefwyr caethwasiaeth fodern at gymorth. Dylid dilyn https://gov.wales/modern-slavery-guidance-professionalscanllawiau MARAC pan fydd dioddefwr yn cael ei adnabod yng Nghymru.

## Cymal 1.6 (dewisol)

48. Dylid ystyried cynnwys y cymalau dewisol mewn contractau mwy lle mae gan gontractwyr y gallu i gynnal diwydrwydd dyladwy pellach ar eu cadwyni cyflenwi mewn perthynas â hawliau dynol, caethwasiaeth fodern a chyfreithiau a safonau llafur ar y môr.

49. Mewn perthynas â'r cymalau sy'n dod o dan 1.6, mae'r dolenni canlynol yn darparu gwybodaeth am y ddeddfwriaeth berthnasol a'r pynciau y cyfeirir atynt.

50. Deddf Caethwasiaeth Fodern (y DU): Slavery and human trafficking in supply chains: guidance for businesses - GOV.UK. Gan gynnwys gwybodaeth am:

- Pwy y mae'n ofynnol iddo gyhoeddi datganiad caethwasiaeth fodern
- Sut i ysgrifennu datganiad caethwasiaeth fodern
- Sut i gymeradwyo a chyhoeddi'r datganiad

- Camau y dylai busnesau eu hystyried i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern

51. Rhwymedigaethau Hawliau Dynol: Guiding Principles on Business and Human Rights: Implementing the United Nations “Protect, Respect and Remedy” Framework | OHCHR. Gan gynnwys gwybodaeth am:

- Egwyddorion sylfaenol a gweithredol cyfrifoldebau hawliau dynol corfforaethol
- Egwyddorion sylfaenol a gweithredol mynediad at rwymedïau/ mecanweithiau cwyno

52. Cyfraith a safonau llafur ar y môr: 2024 - Labour Rights Index. Mae’r map gwres yn y ddolen hon yn darparu gwybodaeth a sgoriau ar gyfer cyfreithiau a safonau sy’n gysylltiedig â llafur o wledydd ledled y byd.

53. Mewn perthynas â **chymalau 1.6 (i)(ii) a (iii)**, mae’r dolenni canlynol yn darparu canllawiau cam wrth gam defnyddiol ar y camau gweithredu y mae’n rhaid eu cyflawni os yw’r cymalau hyn i gael eu defnyddio.  Yn gyffredinol, mae'r dolenni yn cynnwys gwybodaeth am:

- Enghraifft o bolisïau caethwasiaeth fodern
- Templed asesu risg
- Camau y gellir eu cyflawni i liniaru a negyddu risgiau
- Datrys problemau ac ymateb iddynt
- Camau monitro ac adrodd

54. Yn ogystal â’r camau uchod, mae’r dolenni’n darparu gwybodaeth ddefnyddiol arall, megis rhestrau gwirio, meysydd risg uchel sy’n benodol i’r sector, a dolenni i offer ac adnoddau defnyddiol eraill.

- Tackling Modern Slavery in UK Construction and Property Toolkit - Stronger Together (mae angen cofrestru am ddim)
- BSA Toolkit - Tackling Modern Slavery in UK Service and Infrastructure Projects Sectors - June 2023 - BSA
- Modern Slavery - Supply Chain Sustainability School

# Hyfforddiant

## Cymal 1.1

55. Yn unol â chymal 1.1, caiff yr awdurdod contractio dderbyn cynlluniau hyfforddi sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan y contractwr. Fel arall, gellir defnyddio cynllun cyflogaeth a sgiliau templed (gweler Atodiad 2).

56. Yn unol â chymal 1.1, dylai awdurdodau contractio gyfeirio at gyrff perthnasol y diwydiant i wirio a yw personél wedi'u hyfforddi i safonau a gydnabyddir gan y diwydiant. Dylai'r dystiolaeth a ddarperir gan gontractwyr o dan gymal 1.3(c) gyd-fynd â'r safon sy'n berthnasol i bob swydd.

57. Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhestru'r gwahanol gyrff a chymdeithasau a all ddarparu cyllid, cyngor a chymorth mewn perthynas â chymwysterau a chymwyseddau sy'n ofynnol ar draws y diwydiant adeiladu.

- Rhaglenni Cyflogadwyedd a Sgiliau – a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid:
    - Sgiliau Sero Net | Porth Sgiliau Busnes Cymru sy'n cwmpasu pob maes o gymorth hyfforddi a datblygu sgiliau
    - https://www.llyw.cymru/rhaglen-ol-osod-er-mwyn-optimeiddio-hyfforddiant

- Cyrff sy'n defnyddio cyllid ardoll i ddarparu cymorth hyfforddi i gwmnïau perthnasol. Cyrff Ardoll y Sector:
    - Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu – CITB Training Standards for Different Frameworks - CITB
    - Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peiriannol (ECITB) Professional development - ECITB

- Cyrff Masnach y Diwydiant (nid yw'n gynhwysfawr) sy'n gallu cynghori ar hyfforddiant a chymwysterau yn eu meysydd penodol:
    - Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr Skills and training | FMB, Federation of Master Builders
    - Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA): Work Programme - CECA
    - Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr Training Archive - National Federation of Builders
    - Cymdeithas y Contractwyr Trydanol (ECA): Education & Skills
    - Cymdeithas Gwasanaethau Peirianneg Adeiladu (BESA): BESA Academy | Products & Services | BESA
    - Sector Gorffeniadau a Ffitiadau Mewnol (FIS): Skills Hub - FIS
    - Awdurdod Sicrhau Gosodiadau (IAA): Training with The IAA Commercial Services
    - Cogent (cyngor sgiliau sector): Home - Cogent Skills

- Sgiliau Ynni a Chyfleustodau (cyngor sgiliau sector): Skills Solutions - Energy & Utility Skills

- Gall Cyrff Proffesiynol/Cynrychiadol ddarparu rhagor o gyngor a chymorth:
    - Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) Your career | Institution of Civil Engineers (ICE)
    - Sefydliad Siartredig yr Adeiladwyr (CIOB) Learning | CIOB
    - Build UK: Recruiting, Training & Retaining Talent - Build UK
    - Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu (CLC): People and Skills – Construction Leadership Council
    - Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) Welcome to RICS
    - Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) Education, CPD and careers
    - Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru: Amdanom CEW
    - Supply Chain Sustainability School About - Supply Chain Sustainability School

- Sefydliadau Hyfforddi Sgiliau Cydnabyddedig, a ariennir gan Lywodraeth Cymru:
    - Colegau Addysg Bellach Colegau Cymru Dysgu seiliedig ar waith, Sgiliau a Chyflogadwyedd
    - Darparwyr dysgu seiliedig ar waith Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

58. Ardystio/Cymhwysedd – safonau cymhwysedd cydnabyddedig o fewn y sector:

- Trustmark – gwybodaeth i fusnesau: Be part of the only Government Endorsed Quality Scheme • TrustMark
- MCS MCS Certified | Giving you confidence in home-grown energy
- Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS): Construction Skills Certification Scheme | Official CSCS Website

59. Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs) rôl o ran uno cyflogwyr, darparwyr addysg a rhanddeiliaid i fynd i'r afael â materion sgiliau. Anogir cyflogwyr i ymgysylltu ag RSP eu rhanbarth ar gymorth sydd ar gael ganddynt, gan gynnwys nodi partneriaid perthnasol, ffrydiau cyllido a gwybodaeth am y farchnad lafur Mae manylion, gan gynnwys dolenni i dudalennau gwe pob rhanbarth, ar gael yma: Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol | Porth Sgiliau Busnes Cymru
60. Cymorth ysgolion/addysg:

- Gyrfa Cymru https://gyrfacymru.llyw.cymru/Gyrfa Cymru
- Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) Cymwysterau TGAU a Safon Uwch | CBAC

61. Gall Cyrff Dyfarnu Cymwysterau a Rheoleiddwyr ddarparu pwynt cyfeirio ar gyfer cymwysterau:

- Cymwysterau Cymru: Gwybodaeth i Gyflogwyr a Rhanddeiliaid | Cymwysterau Cymru
- Rhwydwaith y Coleg Agored Cenedlaethol (NOCN): Construction and the Built Environment - NOCN
- City and Guilds: Our Sectors | City & Guilds

*Mae yna sefydliadau dyfarnu arbenigol eraill y gall Cymwysterau Cymru gynghori yn eu cylch.

## Cymal 1.2

62. Mewn perthynas â chymal 1.2(b), gall contractwyr gofnodi ac adrodd ar y cymwysterau a'r ardystiadau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant sydd wedi'u hennill neu sydd ar y gweill o ganlyniad i'r contract, gan ddefnyddio eu templedi eu hunain. Fel arall, mae templed ar gyfer tabl adrodd ar gyflogaeth a sgiliau yn Atodiad 2.

## Cymal 1.3

63. Dylid cynnwys y canlynol wrth ddarparu data ar raglenni dysgu seiliedig ar waith:

- Prentisiaethau
- Llwybrau proffesiynol/cynlluniau graddedigion
- Rhaglenni cyflogadwyedd (Twf Swyddi Cymru+, Cymunedau am Waith a Mwy, ReAct+), gan gynnwys hyfforddeiaethau ar gyfer contractwyr ac is-gontractwyr nad ydynt o Gymru
- Lleoliadau gwaith

## Is-gontractio

64. O dan gymal 1.1, dylid cynnwys gwybodaeth am ddulliau hysbysebu ar gyfer unrhyw is-gontractau. Gallai'r rhain gynnwys:

- Dolenni hysbysebu Sell2Wales
- Pyrth tendro eraill a ddefnyddir i hysbysebu cyfleoedd
- Negeseuon e-bost neu gylchlythyrau electronig
- Digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr:

65. Dylai'r manylion sydd eu hangen yn erbyn cymal 1.2 gynnwys ymdrechion y contractwr i gyfathrebu ag isgontractwyr, gan gynnwys BBaChau a micro-BaChau a mudiadau gwirfoddol.

66. Gall y rhwystrau sy'n wynebu BBaChau, micro-BBaChau a mudiadau gwirfoddol gynnwys ymhlith eraill:

- Cael gafael ar gyllid
- Rheoleiddio a chydymffurfiaeth
- Prinder Gweithlu:
- Gwybodaeth am y farchnad

67. Gall awdurdodau contractio a chontractwyr fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn drwy ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd yn WPPN 07/21 uchod, yn ogystal â darparu cymorth arall, megis:

- Cyfeirio at grantiau perthnasol
- Annog isgontractwyr i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol neu gael cymorth gan Busnes Cymru: Pynciau a chyfarwyddyd | Busnes Cymru (Noder: Mae cymorth Busnes Cymru ar gael yn unig i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, neu sy'n bwriadu lleoli eu hunain yng Nghymru)
- Annog arloesi, a fydd yn caniatáu i arloesi ddod yn fantais gystadleuol, er enghraifft, ynghylch atebion cynaliadwy
- Darparu gwybodaeth am brentisiaethau ac atebion i'r gweithlu
- Annog is-gontractwyr i ymuno â chymdeithasau masnach i gynyddu gwybodaeth am y farchnad ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd
- Galluogi cydweithredu rhwng isgontractwyr, wrth gymryd gofal i osgoi hwyluso arferion cydgysylltiedig

68. Mae gwybodaeth am GwerthwchiGymru, gan gynnwys sut i gofrestru a hysbysebu contractau, ar gael yma: Cymorth ac adnoddau - GwerthwchiGymru

69. Gall y contractwr gadw cofnod o'r holl is-gontractau a ddyfernir yn ei fformat ei hun, fodd bynnag, darperir templed yn Atodiad 2 sy'n cynnwys colofnau ar gyfer maint y cwmni, math o gwmni, lleoliad y cwmni, gwerth y contractau a hyd y contractau.

# Yr amgylchedd

## Cymal 1.1

70. Mae manylion pob un o'r elfennau y cyfeirir atynt yng nghymal 1.1 i'w gweld isod yn y canllawiau ar gyfer cymal 1.2. Bydd gan y gwahanol elfennau flaenoriaethau gwahanol yn dibynnu ar y prosiect, ond rhaid ystyried pob un.

71. Dylai contractwyr ystyried yn gyntaf sut gall y prosiect ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth, yn seiliedig ar y safle a ddewiswyd. Dylid rhoi ystyriaeth gynnar hefyd i'r Hierarchaeth Gaffael ((Sustainable Procurement Hierarchy Guidance | WRAP) i asesu a ellir ailddefnyddio adnoddau neu gael gwared arnynt yn gynaliadwy, er enghraifft, drwy anfon dur i gael ei doddi a'i ddefnyddio at ddibenion gwahanol, gan ddileu'r angen i gynhyrchu cynhyrchion (Celsa Steel UK - Cardiff Circular Economy Network).

72. Ceir cymorth sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar y dudalen ganlynol gwefan Busnes Cymru: Hwb Hinsawdd BBaCh | Busnes Cymru, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am:

- Cyfrifiannell carbon
- Cymorth ariannol
- Llawlyfr i fusnesau (business playbook)
- Cyrsiau addysgol

## Cymal 1.2

73. Yn unol â chymal 1.2, caiff yr awdurdod contractio dderbyn cynlluniau amgylcheddol sy'n cael eu defnyddio eisoes gan y contractwr, cyn belled â'u bod yn cynnwys y gofynion a nodir yn 1.2 (i), (ii), (iii) a (iv). Fel arall, gellir defnyddio templed cynllun amgylcheddol (gweler Atodiad 2).

74. Er mwyn mynd i'r afael â **gallu prosiect i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd**, dylid cynnal dadansoddiad o risg y safle mewn perthynas â newid hinsawdd a'r tywydd. Bydd y risgiau'n wahanol yn dibynnu ar y math o brosiect a'r lleoliad. Gallai risgiau ymwneud â glawiad, llifogydd, stormydd, patrymau gwynt, tymheredd uchel, sychder, lefel y môr yn codi ac erydu arfordirol. Yn ogystal, bydd defnyddio rhagamcanion tywydd y dyfodol yn helpu gyda phenderfyniadau ar ddeunyddiau, rheoli dŵr, dyluniadau addasol a seilwaith cyfleustodau.

75. Wrth edrych ymhellach i'r dyfodol, mae hyder mewn rhagamcanion hinsawdd yn lleihau. hira'n byd yw oes ddisgwyliedig yr asedau, pwysica'n byd yw diogelu'r prosiect at y dyfodol.

76. Mae Cyngor Adeiladu Gwyrdd y DU wedi llunio fframwaith ar gyfer mesur ac adrodd ar risgiau ffisegol cysylltiedig â'r hinsawdd i asedau adeiledig. I'w weld, cliciwch yma: Measuring & Reporting Physical Risks to Built Assets | UKGBC

77. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cynhyrchu sesiynau briffio'r sector ar risgiau hinsawdd sydd i'w gweld yma S Sector briefings - UK Climate Risk

78. Mae'r Swyddfa Dywydd yn cyhoeddi data Rhagamcanion Hinsawdd y DU y gellir eu defnyddio yng nghamau dylunio prosiectau adeiladu: UK Climate Projections (UKCP) - Met Office. Mae'r Local Climate Adaptation Tool (LCAT) wedi'i ddatblygu i helpu penderfynwyr lleol i asesu sut bydd newid hinsawdd yn effeithio ar eu hardal a pha gamau y gellir eu cymryd i liniaru risgiau: LCAT: Local Climate Adaptation Tool

79. Mae diogelu a **gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth** eisoes yn ofyniad o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, lle mae'n rhaid i awdurdodau contractio *geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.* Mae'r ddolen ganlynol yn darparu gwybodaeth am sut mae'r ddyletswydd yn berthnasol i weithgareddau ehangach awdurdodau contractio: Cyflwyniad i Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | LLYW.CYMRU

80. Er mwyn mynd i'r afael â gwelliannau i fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol, yn benodol mewn prosiectau adeiladu mawr, dylid dilyn egwyddorion y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM). Dylid ystyried y ddogfen egwyddorion yn y lle cyntaf, a dylid defnyddio'r canllawiau lle mae angen mwy o fanylion.

81. Yn y ddogfen ganllawiau, mae tudalen 85 yn darparu rhestr wirio dylunio, mae tudalen 103 ymlaen yn awgrymu gweithgareddau y gellir eu cynnal drwy'r camau adeiladu, ac mae tudalen 113 ymlaen yn darparu nodiadau technegol, gan gynnwys cyngor ar safleoedd sy'n cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar fioamrywiaeth

82. Mae dolenni i'r egwyddorion a'r canllaw ar gael yma: Biodiversity Net Gain Principles and Guidance | CIEEM

83. Adnodd defnyddiol arall i'w ystyried yw'r fframwaith safonau Building with Nature, sy'n cymryd golwg ehangach ar wahanol ryngweithiadau seilwaith. Standards Form — Building with Nature

84. Er mwyn **lleihau allyriadau carbon oes gyfan y prosiect**, dylai prosiectau llai ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y canllawiau canlynol Low Carbon & Resource Efficient Construction Procurement | WRAP - The Waste and Resources Action Programme. Dylai contractwyr sy'n cynnal prosiectau llai amlinellu'r camau y byddant yn eu cymryd i leihau eu hallyriadau carbon, a allai gynnwys:

- Defnyddio deunyddiau wedi'u hailddefnyddio a'u hailgylchu
- Defnyddio deunyddiau effaith isel
- Ymestyn oes ddefnyddiol yr ased
- Dylunio i'w ailddefnyddio neu ei ddatgymalu
- Mesurau arbed ynni, wrth adeiladu a thu hwnt

85. Dylid darparu tystiolaeth ar ffurf mesuriadau i gefnogi'r camau a nodir yn y cynllun. Mae'r Fenter Trawsnewid Ynni Isel (LETI) yn darparu cyflwyniadau defnyddiol i garbon oes gyfan yma: Carbon Alignment | LETI

86. Ar gyfer prosiectau mwy, lle mae gallu yn caniatáu hynny, dylid cynnal a monitro asesiad o allyriadau carbon rhagamcanedig y prosiect. Mae offeryn asesu carbon oes gyfan RICS a chanllawiau ategol a gydnabyddir yn eang yn adnoddau defnyddiol: Whole life carbon assessment (WLCA) for the built environment

87. Mae gwefan Greenhouse Gas Protocol yn darparu canllawiau ar asesu allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3: Standards & Guidance | GHG Protocol yn ogystal ag offer ar gyfer cyfrifo allyriadau penodol i sector: Calculation Tools and Guidance | GHG Protocol.

88. Gall cyfrifiannell ddefnyddiol yr Ymddiriedolaeth Garbon fod o ddefnydd i BBaChau a sefydliadau gwirfoddol, i'w helpu i adrodd am eu hallyriadau Cwmpas 1 a 2: SME Carbon Footprint Calculator | The Carbon Trust

89. Gellir defnyddio cyfrifianellau eraill, cyn belled â'u bod yn bodloni'r gofynion a nodir gan yr awdurdod contractio a'u bod yn unol â'r Protocolau Nwyon Tŷ Gwydr – gan sicrhau cysondeb ar draws y sector a dilysu data.

90. Dylai contractwyr wedyn amlinellu sut maent yn bwriadu cydweithio â'u cadwyn gyflenwi i reoli allyriadau y tu allan i'w rheolaeth uniongyrchol eu hunain. Mae'r ddolen ganlynol yn darparu gwybodaeth am y safon a'r offeryn penodol i brosiect: Project Protocol | GHG Protocol.

91. Er mwyn **lleihau effeithiau ecolegol byd-eang,** dylai contractwyr ystyried cynnal asesiad risg cynaliadwyedd (SRA), neu debyg, a fydd yn helpu i:

i. Fapio cadwyni cyflenwi a'r deunyddiau a ddarperir gan y cyflenwyr hynny.

ii. Deall yr effaith ecolegol y mae'r deunyddiau hynny'n ei chael y tu allan i Gymru, gan gynnwys ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol.
iii. Lleihau'r niwed ecolegol gwirioneddol a phosibl trwy ddilyn egwyddorion yr Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy.

92. Mae camau gweithredu y gellir eu cynnwys yn y cynllun, sy'n gysylltiedig ag adrannau eraill o'r canllawiau hyn yn cynnwys:

i. Ailddefnyddio deunyddiau, defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, a deunyddiau sy'n dod o ffynonellau cynaliadwy. Bydd gofynion ar gyfer targedau yn ofynnol o dan gymal 1.7.
ii. Gwella dealltwriaeth o allyriadau carbon oes gyfan, yn enwedig allyriadau cwmpas 3. Camau gweithredu o dan gymal 1.2(c) a thargedau o dan gymal 1.7(c).

## Cymalau 1.4 ac 1.7:

93. Mae cymalau 1.4 ac 1.7 .5 yn caniatáu i'r Awdurdod Contractio ofyn am ddata gan y contractwr sy'n ymwneud â gofynion y cymalau amgylcheddol hyn. Gallai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Asesiad risg o'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd
- Asesiad carbon oes gyfan
- Faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu ac na chafodd ei anfon i safleoedd tirlenwi
- Faint o ddeunyddiau a ailddefnyddiwyd
- Faint o ddeunyddiau sy'n dod o ffynonellau cynaliadwy
- Ardystiad deunyddiau cynaliadwy
- Tystiolaeth o wella'r amgylchedd naturiol
- Tystiolaeth o wella bioamrywiaeth

## Cymal 1.6

94. Mae cymal 1.6 yn ei gwneud yn ofynnol i osod targedau yn erbyn gwahanol agweddau amgylcheddol. Mae adnoddau i helpu i gytuno ar y targedau hynny yn erbyn pob is-gymal (i, ii, iii) isod.

i. Canllawiau ar dargedau ar gyfer defnyddio deunydd wedi'i ailddefnyddio a'i ailgylchu gan WRAP Cymru: [Low Carbon & Resource Efficient Construction Procurement | WRAP - The Waste and Resources Action Programme]
ii. Dylai targedau lleihau carbon oes gyfan ystyried:

a. Dewis deunyddiau: defnyddio deunyddiau cynaliadwy a charbon ymgorfforedig isel.  Bydd y deunyddiau effaith uchel canlynol yn lleihau carbon ymgorfforedig prosiect. Dylid dangos hyn trwy gymharu'r deunyddiau a ddewiswyd yn erbyn Ffactorau Trosi Allyriadau diweddaraf Llywodraeth y DU. Dylai data ar garbon ymgorfforedig y deunyddiau hyn fod ar gael gan gyflenwr y deunyddiau.
    i. Sment: 0% o goncrit i fod yn CEM 1 Portland sment oni bai bod cyfiawnhad technegol dilys yn cael ei ddarparu.
    ii. Sment: O leiaf 30% o gynnwys sment i gael ei ddisodli gan Ddeunyddiau Smentiog Atodol (SCMs) megis lludw o losgi glo, slag, neu ‘pozzolans’ naturiol oni bai bod cyfiawnhad technegol dilys yn cael ei ddarparu.
    iii. Agregau Defnyddiwch agregau wedi'u hailgylchu lle bo hynny'n dechnegol ddichonadwy. Lle nad yw hyn yn ddichonadwy, defnyddiwch agregau lleol lle maent ar gael.
    iv. Dur: Dylai’r holl ddur a gaffaelir fod ag ardystiad dur CARES o leiaf. Gellir derbyn ardystiadau ychwanegol lle gellir cyflawni gostyngiad amlwg yn effaith carbon y dur e.e. ardystiad eco-atgyfnerthu. Gellir darparu rhesymau technegol dilys lle gall diffyg cydymffurfiaeth arwain at effeithiau andwyol.
    v. Alwminiwm: Defnyddiwch alwminiwm a gynhyrchir yn gynaliadwy drwy sicrhau cydymffurfiaeth ac ardystiad gyda’r Fenter Stiwardiaeth Alwminiwm lle bo hynny’n hyfyw, neu ardystiad achrededig tebyg. Gellir darparu cyfiawnhad technegol dilys dros beidio â chydymffurfio ar gyfer ei adolygu.
    vi. Pren: Dylai’r holl bren a ddefnyddir gydymffurfio â Pholisi Caffael Pren Llywodraeth y DU neu fod wedi’i ardystio naill ai fel FSC, PEFC neu ddarparu tystiolaeth bod y pren yn dod o ffynonellau lleol gydag ardystiad Tyfwyd ym Mhrydain.
b. Effeithlonrwydd ynni: gweithredu arferion a thechnolegau effeithlon o ran ynni a defnyddio ynni adnewyddadwy lle bo modd. Gallai'r rhain gynnwys:
    i. Defnyddio peiriannau adeiladu hybrid neu drydan
    ii. Technoleg lleihau segura neu derfynau amser segura
    iii. Goleuadau safle LED gyda synwyryddion symud ac amseryddion
    iv. Defnyddio paneli solar neu generaduron hybrid ar gyfer pŵer
c. Diwedd oes: dylunio prosiectau y gellir eu datgymalu, gyda chydrannau y gellir eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu'n effeithiol. Gellir dod o hyd i ganllawiau defnyddiol ar egwyddorion economi gylchol mewn adeiladu yma: Circular Economy Guidance for Construction Clients | UKGBC

## Templedi – Cynlluniau a Thablau Adrodd

**Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau a Datganiad Dull Templed:**
Mae'r templed hwn yn ddewisol, a gellir defnyddio eraill os yw'r gofynion yn cael eu bodloni. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r wybodaeth a nodir yn y templed hwn yn wybodaeth lefel sylfaenol, ond gellir ychwanegu mwy o fanylion lle mae'n gymesur ac yn briodol.

**Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau (ESP).**

**Trosolwg o'r Prosiect**

- **Enw'r prosiect:** [Rhowch enw'r prosiect]
- **Lleoliad**: [Rhowch Leoliad]
- **Cleient:** [Rhowch Enw'r Cleient]
- **Contractwr:** [Rhowch enw'r contractwr]
- **Hyd y prosiect:** [Dyddiad dechrau a dyddiad gorffen]

**Yr amcanion**

- **Cyflogaeth:** Darparu cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a/neu'r rhai a allai fod dan anfantais.
- **Hyfforddiant:** Gwella a chadw at gynlluniau sy'n sicrhau sgiliau a chymhwysedd y gweithlu a pherfformiad y cwmni trwy gyfleoedd hyfforddi.

**Targedau allweddol:**

- **Creu swyddi:** [Rhowch nifer] swyddi newydd i drigolion lleol.
- **Prentisiaethau:** [Rhowch nifer] lleoliadau i brentisiaid.
- **Graddedigion:** [Rhowch nifer] lleoliadau i raddedigion.
- **Rhaglenni Cyflogadwyedd:** [Rhowch nifer] lleoliadau rhaglenni cyflogadwyedd.
- **Lleoliadau gwaith:** [Rhowch nifer] lleoliadau gwaith ar gyfer myfyrwyr a cheiswyr gwaith.
- **Cyfleoedd hyfforddi:** [Rhowch nifer] cyfleoedd hyfforddi a ddarperir.

**Datganiad Dull**

1. **Cyflogaeth**
    - Mabwysiadu arferion recriwtio cynhwysol.
    - Gweithio mewn partneriaeth â chanolfannau gwaith ac asiantaethau cyflogaeth lleol.

  - Hysbysebu agoriadau swyddi trwy sianeli wedi'u targedu.
  - Cynnal / mynychu ffeiriau swyddi a digwyddiadau recriwtio.
  - Sefydlu rhaglenni prentisiaeth mewn cydweithrediad â chyrff diwydiant.
  - Nodi bylchau sgiliau a dangos camau i'w llenwi.
  - Chwilio am gyfleoedd gwaith hirdymor i unigolion ar ôl cwblhau'r prosiect.

2. **Hyfforddiant**
   - Cydweithio â cholegau a darparwyr hyfforddiant lleol.
   - Cynnig rhaglenni hyfforddi ac ardystio yn y gwaith.
   - Darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus.

**Cynllun Gweithredu**

- Amserlen: Amlinellu cerrig milltir a dyddiadau cau allweddol ar gyfer pob strategaeth.
- Adnoddau: Nodi adnoddau angenrheidiol, gan gynnwys cyllideb, personél, a deunyddiau.
- Cyfrifoldebau: Neilltuo rolau a chyfrifoldebau.

**Monitro a Gwerthuso**

- **Dangosyddion Perfformiad:** Tracio creu swyddi, prentisiaethau, hyfforddeiaethau, lleoliadau profiad gwaith, cyfleoedd hyfforddi.
- **Adrodd:** Adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i randdeiliaid ac addasu datganiad dull yn unol â hynny.
- **Adborth**: Casglu adborth gan gyfranogwyr a rhanddeiliaid i wella'r ESP.

**Manylion cyswllt**

- **Cydlynydd ESP**: [Enw]
- **Manylion cyswllt:** [Rhowch e-bost a rhif ffôn]

**Tabl Adrodd Cyflogaeth a Sgiliau Templed:**
Mae'r wybodaeth yn y tabl hwn yn enghraifft a gall fod yn wahanol i'r hyn a gytunwyd rhwng yr awdurdod contractio a'r contractwr.

| Dangosydd Perfformiad | Targed | Gwirio neddol | Cyfredol/Newydd | Cymhwyster/ Lefel | Statws | Person Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Creu swyddi** | [Targed] | [Gwirio neddol] | [Nodwch] | [Lefel/au'r Swydd] | [llawn amser, rhan-amser, dros dro] | [Enw] |
| **Prentisiaethau** | [Targed] | [Gwirio neddol] | [Nodwch] | [Lefel/au] | [ar y gweill/wedi'u cwblhau] | [Enw] |
| **Lleoliadau Rhaglen Cyflogadwyedd (gan gynnwys hyfforddeiaethau)** | [Targed] | [Gwirio neddol] | [Nodwch] | [Lefel/au] | [ar y gweill/wedi'u cwblhau] | [Enw] |
| **Lleoliadau profiad gwaith** | [Targed] | [Gwirio neddol] | [Nodwch] | | [ar y gweill/wedi'u cwblhau] | [Enw] |
| **Cyfleoedd hyfforddi** | [Targed] | [Gwirio neddol] | [Nodwch] | [Cymhwyster/au] | [ar y gweill/wedi'u cwblhau] | [Enw] |
| **Cyfleoedd i Uwchsgilio** | [Targed] | [Gwirio neddol] | [Nodwch] | [Cymhwyster/DPP] | [ar y gweill/wedi'u cwblhau] | [Enw] |

**Diweddariad am Berfformiad** Darparu naratif ym mhob cyfnod adrodd i roi’r diweddaraf ar y Dangosyddion Perfformiad

**Tabl Adrodd Cydymffurfiaeth Cyflogaeth Templed:**
Mae'r wybodaeth yn y tabl hwn yn enghraifft a gall fod yn wahanol i'r hyn a gytunwyd rhwng yr awdurdod contractio a'r contractwr.

Nid yw’n ofynnol i’r wybodaeth gael ei chasglu fel mater o drefn, ond rhaid darparu’r wybodaeth y gofynnir amdani i awdurdodau contractio o fewn 14 diwrnod i gais amdani.

Gellir diwygio’r tabl hwn at ddibenion eich sefydliad neu eich prosiect, gan gynnwys ychwanegu colofnau ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a mathau o weithwyr ym mhob gradd.

| | **Nifer/Gwerth** |
|---|---|
| **Personél wedi'u cymryd ymlaen ar y contract** | [Nifer] |
| **Statws cyflogaeth** | |
| Gweithiwr cyflog | [Nifer] |
| Gweithwyr | [Nifer] |
| Gweithwyr asiantaeth | [Nifer] |
| Hunangyflogedig | [Nifer] |
| **Isafswm cyfradd cyflog fesul awr (lefel CSCS)** | |
| Prentisiaid (cerdyn coch) | £[Gwerth] |
| Gweithwyr medrus (cerdyn glas) | £[Gwerth] |
| Goruchwylwyr (cerdyn golff) | £[Gwerth] |
| Rheolwyr (cerdyn du) | £[Gwerth] |
| Gweithwyr â Chymwysterau proffesiynol (cerdyn gwyn/melyn) | £[Gwerth] |
| **Contractau dim oriau / oriau heb eu gwarantu** | [Nifer] |

**Tabl Adrodd Is-gontractio templed:**

| **Is-gontractwr** | **Math o Sefydliad** | **Maint y sefydliad** | **Hyd y contract** | **Gwerth y contract** | **Cod post y sefydliad** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dewiswch eitem. | Dewiswch eitem. | £[Gwerth] | £[Gwerth] | [Nodwch] |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**Cynllun Amgylchedd Templed:**

Mae'r templed hwn yn ddewisol, a gellir defnyddio eraill os yw'r gofynion yn cael eu bodloni. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r wybodaeth a nodir yn y templed hwn yn wybodaeth lefel sylfaenol, ond gellir ychwanegu mwy o fanylion lle mae'n gymesur ac yn briodol.

**Cynllun Amgylchedd**

**Trosolwg o'r Prosiect**

- **Enw'r prosiect:** [Rhowch enw'r prosiect]
- **Lleoliad**: [Rhowch Leoliad]
- **Cleient:** [Rhowch Enw'r Cleient]
- **Contractwr:** [Rhowch enw'r contractwr]
- **Hyd y prosiect:** [Dyddiad dechrau a dyddiad gorffen]

**Yr amcanion**

- **Y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd** Darparu cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a/neu'r rhai a allai fod dan anfantais.
- **Rheoli Adnoddau Naturiol:** Gwella sgiliau'r gweithlu trwy gyfleoedd hyfforddi.
- **Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr**:
- **Defnyddio deunyddiau cynaliadwy:**
- **Gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth**

**Targedau allweddol:**

- **Ailddefnyddio deunyddiau**: [Rhowch % o gyfanswm y deunyddiau a ddefnyddir yn seiliedig ar dunelledd/m3] o ddeunyddiau i gael eu hailddefnyddio.
- **Defnyddio deunyddiau cynaliadwy**: [Rhowch % o gyfanswm y deunyddiau a ddefnyddir yn seiliedig ar dunelledd/m3] o ddeunyddiau yn dod o ffynonellau cynaliadwy.
- **Gwastraff heb ei anfon i safleoedd tirlenwi**: [Rhowch % yn seiliedig ar dunelledd/m3] o wastraff heb ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- A**llyriadau nwyon tŷ gwydr:** [Rhowch CO2e] i'w leihau o'r ffigur asesu cychwynnol.

**Cynllun Gweithredu**

- Amserlen: Amlinellwch cerrig milltir allweddol a dyddiadau cau ar gyfer pob amcan.
- Adnoddau: Nodi adnoddau angenrheidiol, gan gynnwys cyllideb, personél, a deunyddiau.
- Cyfrifoldebau: Neilltuo rolau a chyfrifoldebau.

**Monitro a Gwerthuso**

- **Dangosyddion Perfformiad:** Olrhain data targedau allweddol.

- **Adrodd:** Adrodd cynnydd yn rheolaidd i randdeiliaid ac addasu targedau os oes angen.
- **Adborth**: Casglu adborth gan gyfranogwyr a rhanddeiliaid i wella'r cynllun amgylcheddol.

**Manylion cyswllt**

- **Cydlynydd Amgylcheddol**: [Enw]
- **Manylion cyswllt:** [Rhowch e-bost a rhif ffôn ]

**Tabl Adrodd Amgylchedd Templed:**

| Dangosydd Perfformiad | Targed | Gwirioneddol | Sylwadau | Person Cyfrifol | Cyfnod Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | [Targed] | [Gwirioneddol] | [Sylwadau] | [Enw] | [Cyfnod] |
| **Gwastraff heb ei anfon i safleoedd tirlenwi** | [Targed] | [Gwirioneddol] | [Sylwadau] | [Enw] | [Cyfnod] |
| **Defnyddio deunyddiau wedi'u hailddefnyddio neu eu hailgylchu** | [Targed] | [Gwirioneddol] | [Sylwadau] | [Enw] | [Cyfnod] |